Hyrwyddo dewis a gwerth
**i bob cwsmer nwy a thrydan**

# Cod Hyder - cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau cymharu prisiau domestig ar-lein

## Cod Ymarfer

**Dyddiad cyhoeddi:** 27 Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| **Cysylltwch â:** | Mark Chiswell |
| **Tîm:** | Prosesau Manwerthu a'r Farchnad |
| **Ffôn:** | 020 7901 3153 |
| **E-bost:** | confidencecode@ofgem.gov.uk |

**Trosolwg:**

Mae'r Cod Hyder yn nodi gofynion gofynnol y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymharu prisiau rhyngweithiol i gwsmeriaid domestig eu bodloni er mwyn cael ei achredu gan Ofgem, a pharhau i fod yn achrededig ganddo.

# Cyd-destun

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoli'r Cod Hyder o Llais Defnyddwyr i Ofgem ym mis Mawrth 2013.

Mae'r Cod Hyder yn nodi'r gofynion gofynnol y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymharu prisiau nwy a thrydan domestig ar-lein eu bodloni er mwyn cael ei achredu gan Ofgem, a pharhau i fod yn achrededig ganddo.

Mae gan bob gofyniad o'r Cod Hyder nodiadau canllaw (lle y bo angen er eglurder) sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan bob darparwr gwasanaeth o dan bob gofyniad.

Eleni, rydym yn bwriadu adolygu'r Cod i weld a ellir gwneud unrhyw welliannau.

# Dogfennau cysylltiedig

Canllawiau Terfynol ar Gyflenwi Ynni Gwyrdd – Atodiad 1 i'r llythyr a gyhoeddwyd 4 Chwefror 2009:
http://www.ofgem.gov.uk/Sustainability/Environment/Policy/Documents1/Green%20supply%20guidelines%20final%20proposals%20open%20letter.pdf

# Cynnwys


**1. Y gofynion 4**

Gofyniad un - Bod yn annibynnol a diduedd 4
Nodiadau canllaw gofyniad un 4
Gofyniad dau – Tariffau a chymharu prisiau 5
Nodiadau canllaw gofyniad dau 5
Gofyniad tri – Rheoli 7
Nodiadau canllaw gofyniad tri 7
Gofyniad pedwar – Dulliau talu 8
Nodiadau canllaw gofyniad pedwar 8
Gofyniad pump – Canlyniadau a hidlwyr 8
Nodiadau canllaw gofyniad pump 8
Gofyniad chwech – Ansawdd y gwasanaeth ac effeithlonrwydd ynni 9
Nodiadau canllaw gofyniad chwech 9
Gofyniad saith – Cywirdeb a diweddaru tariffau 10
7.1 Tybiaethau cyfrifo 10
7.2 Diweddaru tariffau 10
7.3 Arddangos manylion tariff a gwariant cyfredol 11
Nodiadau canllaw gofyniad saith 11
Gofyniad wyth – Archwiliad blynyddol 12
Nodiadau canllaw gofyniad wyth 12
Gofyniad naw – Ymdrin â chwynion 12
Nodiadau canllaw gofyniad naw 12

**Atodiadau 13**

**Atodiad 1 – Y broses newid 14**

# 1. Y gofynion

### Gofyniad un - Bod yn annibynnol a diduedd

(A) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth fod yn annibynnol ar unrhyw gyflenwr nwy neu drydan. Gall dderbyn comisiwn gan gyflenwyr ond ni ddylai hyn ddylanwadu ar gysondeb o ran darparu unrhyw wybodaeth neu ddata.

(B) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth nodi'n glir ar ei wefan bob cyflenwr y mae ganddo gytundeb comisiwn ag ef neu bob cyflenwr y mae'n derbyn unrhyw dâl oddi wrtho, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

(C) Ni ddylid arddangos hysbysebion gan gyflenwyr ynni, eu hasiantau, cwmnïau cysylltiedig, na brandiau sy'n gweithredu o dan drwydded cyflenwr, ar hafan/prif dudalen na thudalennau cymharu prisiau ynni gwefan y darparwr gwasanaeth.

**Nodiadau canllaw gofyniad un**

1. Caiff darparwr gwasanaeth ei ystyried yn annibynnol ar unrhyw gyflenwr nwy neu drydan lle nad yw'n gwmni nac ymgymeriad cysylltiedig i unrhyw gyflenwr na chwmni sy'n gwmni cysylltiedig i unrhyw gyflenwr ynni.

2. Pan fydd defnyddiwr yn dewis chwilio yn ôl pris, rhaid i'r canlyniadau gael eu cyflwyno yn ôl y pris gorau yn unig.

3. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth roi cyngor diduedd, nid cyngor sy'n rhoi mantais ffafriol i unrhyw gyflenwr nwy neu drydan penodol. Yn amodol ar bwynt 2 o'r canllawiau uchod, ni chaniateir i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno unrhyw wybodaeth na data mewn ffordd (yn ôl disgresiwn llwyr Ofgem) sydd i'w weld, neu a allai fod, yn gamarweiniol neu'n ddryslyd i ddefnyddwyr.

4. Caiff gwasanaeth diduedd ei ystyried fel un nad yw'n ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw gyflenwr penodol. Dim ond os nad yw cwmni yn bwriadu gweithredu mewn ffordd sydd naill ai'n ffafrio neu sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw gyflenwr penodol, ac nad yw'r arfer yn cael yr effaith honno, y caiff gwasanaeth ei drin fel un cwbl ddiduedd.

5. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth nodi'n glir bob cyflenwr y mae'n cael comisiwn/taliad ganddo, p'un a gaiff y taliad hwnnw ei wneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan gyflenwr, trydydd parti neu asiant. Caiff y gofyniad o ran nodi cyflenwyr yn glir ei fodloni pan restrir enw'r cyflenwr fel rhan o un rhestr sy'n nodi pob cyflenwr y mae'r darparwr gwasanaeth yn cael comisiwn ganddo. Rhaid arddangos y rhestr hon mewn man amlwg ar y tudalennau canlyniadau cymharu prisiau neu dylai fod modd mynd ati o'r tudalennau hynny.

6. Os na all defnyddiwr newid i'w ddewis gyflenwr yn awtomatig drwy wefan y darparwr gwasanaeth, ni ddylai'r darparwr gwasanaeth argymell cyflenwr amgen.

## Gofyniad dau – Tariffau a chymharu prisiau

(A) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth wneud pob ymdrech resymol i gynnwys cymariaethau prisiau o ran pob tariff domestig sydd ar gael a, lle y bo'n gymwys, ar gyfer pob math o daliad sydd ar gael ar gyfer pob cyflenwr trwyddedig (gan gynnwys ar gyfer pob asiant, cwmni cysylltiedig a brand sy'n gweithredu o dan drwydded cyflenwr), ar gyfer nwy, trydan a thanwydd deuol, ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth ddangos y canlynol:

- tariffau cymdeithasol (h.y. tariffau lle mae cymhwysedd defnyddwyr yn seiliedig ar amgylchiadau cymdeithasol neu ariannol, e.e. cael budd-daliadau); neu
- tariffau y mae'r cyflenwr wedi gofyn i'r darparwr gwasanaeth eu dileu o'i wefan; neu
- tariffau sydd ar gael i ddefnyddwyr mewn rhanbarth penodol yn unig, i ddefnyddwyr nad ydynt o fewn y rhanbarth penodol hwnnw.

(B) Gellir cynnwys tariffau hanesyddol yn ôl disgresiwn darparwr gwasanaeth, ond os na chynhwysir tariffau hanesyddol yna dylid nodi hyn yn glir ar wefan y darparwr gwasanaeth.

(C) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth hysbysu Ofgem os bydd cyflenwr ynni yn gofyn iddo ddileu tariff o'i wefan, sy'n dal i fod ar gael i ddefnyddwyr hyd eithaf gwybodaeth y darparwr gwasanaeth hwnnw.

*Tariffau ag amserlenni cyfyngedig*

(Ch) Pan fo dyddiad gorffen tariff cyflenwr yn llai na hyd y cyfnod cymharu, ni ddylai'r darparwr gwasanaeth gynnwys y tariff hwnnw ar ei wefan gymharu.

(D) Pan fo dyddiad gorffen tariff y cyflenwr o fewn deufis i ddiwedd y cyfnod cymharu, dylai cyfeiriad y darparwr gwasanaeth at y tariff hwnnw gael ei ategu â 'neges rybudd'.

(Dd) Ble bynnag y bo modd dylid arddangos y 'neges rybudd' ar y dudalen ganlyniadau sy'n dangos y tariff hwnnw, ond os na ellir gwneud hynny, rhaid ei harddangos o fewn manylion y tariff.

(E) Bydd y 'neges rybudd', o leiaf, yn hysbysu'r cwsmer o'r canlynol:

- y disgwylir i'r tariff neu nodwedd/mantais allweddol y tariff ddod i ben ar [dyddiad gorffen perthnasol];
- ond mae cyfanswm y gost a ddarperir yn y gymhariaeth yn tybio y bydd y tariff a'r nodwedd/mantais allweddol yn aros yr un peth ar ôl [dyddiad gorffen perthnasol] ond ei bod yn bosibl na fydd hynny'n digwydd;
- ei bod yn bosibl, felly, y caiff y cwsmer ei drosglwyddo i dariff gwahanol a allai fod yn ddrutach neu golli'r manteision/gostyngiadau o'r tariff o [dyddiad gorffen perthnasol].

**Nodiadau canllaw gofyniad dau**

1. Dylid cynnwys tariffau gwyrdd.

2. Mae tariff gwyrdd yn un sydd wedi'i ardystio gan y Cynllun Ardystio Cyflenwadau Ynni Gwyrdd[1]

3. Rhaid i wefan y darparwr gwasanaeth nodi'n glir y fethodoleg a ddefnyddir i restru tariffau gwyrdd. Ar gyfer y tariffau hyn, rhaid dangos y bathodyn perthnasol a / neu dylid nodi'n glir ar y tabl canlyniadau bod y tariffau hyn wedi'u hardystio gan y cynllun.

4. Os bydd darparwr gwasanaeth am ddarparu hidlydd ar gyfer tariffau nas diffinnir fel rhai gwyrdd, gall wneud hynny. Fodd bynnag, dylid diffinio'r tariffau eraill hyn fel rhai ‘amgylcheddol’. Fel arall, os bydd darparwyr gwasanaeth am ddangos pob tariff dylid labelu'r hidlwyr fel rhai ‘gwyrdd ac amgylcheddol’ gyda'r tariffau gwyrdd yn dwyn y bathodyn ardystio.

5. Tariffau hanesyddol (neu wedi'u cadw) yw'r tariffau hynny y mae cwsmeriaid etifeddol yn tanysgrifio iddynt ond nad ydynt ar gael mwyach i gwsmeriaid newydd.

6. Pan fo tariffau nwy a thrydan wedi'u bwndelu â darparu gwasanaethau eraill (e.e. teleffoni), rhaid dangos y prisiau nwy a thrydan sylfaenol ar wahân, a rhoi manylion am elfennau ychwanegol y tariff. Gall Ofgem adolygu cynhyrchion bwndel newydd a gyflwynir i'r farchnad a rhoi canllawiau priodol ar eu harddangos ar wefan y darparwr gwasanaeth.

7. Dylid rhestru manylion cynigion anariannol (megis pwyntiau archfarchnad) ar wahân i’r prisiau nwy a thrydan sylfaenol.

8. Gall darparwr gwasanaeth gynnwys cymariaethau prisiau ar gyfer mesuryddion ansafonol (e.e. Economi 9) yn ôl ei ddisgresiwn.

9. Mae darparwr gwasanaeth yn gyfrifol am gael yr holl ddata a arddangosir ar ei wefan sy'n cwmpasu tariffau pob cyflenwr trwyddedig (gan gynnwys tariffau ei asiantau, cwmnïau cysylltiedig ac unrhyw frandiau cysylltiedig), diweddaru'r data hwnnw a sicrhau ei fod yn gywir.

10. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth sicrhau mai hyd rhagosodedig y cyfnod cymharu yw 12 mis. Fodd bynnag, gellir creu hidlwyr ar gyfer cyfnodau cymharu eraill.

11. Ystyrir mai dyddiad gorffen y tariff yw: pan ddaw prif nodwedd y tariff i ben, mae hyn yn cynnwys diwedd (1) pris sefydlog; (2) gostyngiad; (3) pris olrhain; (4) pris wedi'i gapio.

Arfer gorau a argymhellir:

[1] Mae'r Canllawiau ar Gyflenwi Ynni Gwyrdd yn diffinio tariff gwyrdd.

Arddangosir canlyniadau gwyrdd yn ôl trefn cymysgedd tanwydd wedyn pris

## Gofyniad tri – Rheoli

(A) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth reoli ei wefan cymharu prisiau a defnyddio ei gronfa ddata a'i gyfrifiannell tariffau ei hun.

**Nodiadau canllaw gofyniad tri**

1. Dim ond pan fydd ganddo reolaeth lawn dros y wybodaeth a gynhwysir ar y wefan a'r modd y cyflwynir y cynnwys hwnnw yr ystyrir bod darparwr gwasanaeth yn rheoli ei wefan.

2. Ystyrir bod darparwr gwasanaeth yn rheoli'r wefan os oes ganddo'r lefel honno o reolaeth, hyd yn oed pan gynhelir y wefan gan drydydd parti ar ran y darparwr gwasanaeth.

3. Fodd bynnag, pan fo:

- gwefan yn cael ei chynnal gan drydydd parti, ac
- mae'r trydydd parti hwnnw hefyd yn cynnal gwefan sy'n cynnig gwasanaeth cymharu prisiau ynni ar ran unrhyw ddarparwr cymharu prisiau arall (p'un a yw wedi'i achredu gan Ofgem ai peidio),

ystyrir bod y darparwr gwasanaeth yn rheoli'r wefan dim ond os bydd y trydydd parti hwnnw yn cynnal y wefan yn gwbl annibynnol ar wefan y darparwr arall.

4. Ond, sut bynnag, ni all y wefan gael ei chynnal gan drydydd parti sydd hefyd yn rheoli gwefan cymharu prisiau ynni arall sydd wedi'i hachredu gan Ofgem.

5. Gall darparwr gwasanaeth ddarparu ei gyfrifiannell i drydydd partïon ond, pan fydd yn gwneud hynny, gall y trydydd parti nodi ei fod yn defnyddio cyfrifiannell neu gronfa ddata'r darparwr gwasanaeth a nodi bod y darparwr gwasanaeth wedi'i achredu i'r Cod Hyder. Fodd bynnag, ni ddylai'r trydydd parti ddefnyddio logo'r Cod Hyder.

6. Bydd trefniadau'r darparwr gwasanaeth â'r trydydd parti yn darparu mai dim ond os bydd wedi dilyn yr un rheolau â'r darparwr gwasanaeth ar gyfer gwneud cymariaethau a'i fod yn bodloni gofynion y Cod Hyder y caiff y trydydd parti wneud y fath ddatganiadau.

7. Y darparwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trydydd parti yn cydymffurfio â'r trefniadau. Gellir ystyried bod unrhyw fethiant ar ran y trydydd parti i fodloni gofynion y Cod Hyder yn achos o dorri'r Cod Hyder gan y darparwr gwasanaeth.

## Gofyniad pedwar – Dulliau talu

(A) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth esbonio'r dulliau talu canlynol i ddefnyddwyr:

- Credyd safonol drwy arian parod/siec;
- Debyd Uniongyrchol misol a chwarterol;
- Mesurydd rhagdalu.

**Nodiadau canllaw gofyniad pedwar**

Nid oes unrhyw ganllawiau cysylltiedig

## Gofyniad pump – Canlyniadau a hidlwyr

(A) Gan ystyried unrhyw hidlwyr perthnasol, rhaid i gymhariaeth rhwng prisiau a ddarperir i ddefnyddiwr restru (ar un dudalen) o leiaf 10 o'r tariffau rhataf sydd ar gael yn y rhanbarth lle mae'r defnyddwyr am gael ei gyflenwi. Rhaid i'r prisiau gynnwys TAW (a nodi eu bod yn gwneud hynny).

(B) Gall darparwr gwasanaeth ddarparu hidlwyr fel y gall defnyddwyr chwilio drwy ganlyniadau yn seiliedig ar y gwahanol o fathau o dariff sydd ar gael neu sgôr gwasanaeth cyflenwr ynni ac ati, ond rhaid mai opsiynau optio i mewn yn unig yw'r rhain.

(C) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth ddarparu cyfleuster neu dudalen(au) dilynol fel y gall defnyddwyr weld rhestr o'u holl ganlyniadau cymharu prisiau.

(Ch) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau isod, os dymuna, gall darparwr gwasanaeth gyflunio'r dudalen ganlyniadau er mwyn arddangos (fel sefyllfa ddiofyn) y tariffau hynny y gall y cwsmer newid iddynt drwy ddefnyddio'r dolenni ar-lein ar wefan gymharu'r darparwr gwasanaeth yn unig.

(D) Gall darparwr gwasanaeth fabwysiadu'r sefyllfa uchod (fel y'i nodir yn Ch) dim ond:

- os oes datganiad clir mewn man amlwg ar frig y dudalen ganlyniadau sy'n esbonio mai dim ond y tariffau hynny y gall y cwsmer newid iddynt ar-lein drwy wefan y darparwr gwasanaeth a arddangosir ar y dudalen ganlyniadau, a
- gall y cwsmer, o'r dudalen ganlyniadau ragosodedig, gael mynediad i'r dudalen sy'n dangos yr holl ganlyniadau yn gyflym ac yn hawdd.

**Nodiadau canllaw gofyniad pump**

1. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth egluro'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr sy'n dewis hidlydd optio i mewn, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn llwyr ymwybodol o'r effaith a'r cyfyngiadau y gall hyn eu cael ar y canlyniadau.

2. Os bydd darparwr gwasanaeth am fabwysiadu'r sefyllfa ddiofyn lle mai dim ond tariffau y gall defnyddwyr newid iddynt ar y wefan honno a arddangosir, ni fydd yn gwneud hynny oni fydd Ofgem wedi adolygu a chymeradwyo'n ysgrifenedig leoliad a geiriad (er mwyn sicrhau ei fod yn wrthrychol ac yn ddiduedd) y datganiad y cyfeiriwyd ato yn (D).

3. Gall darparwr gwasanaeth ddewis darparu hidlydd chwilio ar gyfer 'talu'n brydlon' fel dull talu penodol. Os bydd y cwsmer yn dewis defnyddio'r hidlydd hwnnw dylai'r canlyniadau gynnwys cymariaethau sy'n dangos y gostyngiad perthnasol. Os na fydd cwsmer yn dewis yr hidlydd 'talu'n brydlon' neu os na fydd y darparwr gwasanaeth yn cynnig talu'n brydlon fel hidlydd chwilio ni ddylid dangos y gostyngiad yn y canlyniadau.

4. Ni fodlonir y gofyniad bod yn rhaid i gwsmer allu cael mynediad i'r dudalen sy'n dangos y canlyniadau llawn yn gyflym ac yn hawdd os mai'r unig ffordd y gall wneud hynny yw drwy ail-gofnodi ei fanylion personol neu os oes rhaid iddo fynd ôl i dudalen neu ddolen flaenorol.

*Arfer gorau a argymhellir:*

- Dylai darparwyr gwasanaeth ddangos pob tariff ar y dudalen ganlyniadau;
- Dylai darparwyr gwasanaeth gynnwys manylion am yr hyn sy'n digwydd ar ddiwedd oes y cynnyrch (os yw'n gymwys) ar eu gwefan, a nodi pa mor hir y bydd gostyngiadau, prisiau sefydlog neu brisiau wedi'u capio yn gymwys, a ffi derfynu;
  Dylai darparwyr gwasanaeth gyfrifo prisiau heb gynnwys TAW ac wedyn ychwanegu TAW ar y diwedd.

## Gofyniad chwech – Ansawdd y gwasanaeth ac effeithlonrwydd ynni

(A) Gall y darparwr gwasanaeth roi sgorau i berfformiad cyflenwr a gwahodd y defnyddiwr i ystyried materion sy'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw sgorau gwasanaeth o'r fath a roddwyd i gyflenwr.

(B) Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi cyngor ar effeithlonrwydd ynni neu gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth neu raglenni perthnasol eraill sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni.

### Nodiadau canllaw gofyniad chwech

1. Os bydd darparwr gwasanaeth am roi sgorau gwasanaeth i gyflenwr ni fydd yn gwneud hynny oni fydd Ofgem wedi adolygu a chymeradwyo'n ysgrifenedig y fethodoleg (er mwyn sicrhau bod y fethodoleg yn wrthrychol ac yn ddiduedd) sy'n cael ei defnyddio gan y darparwr gwasanaeth i roi'r sgorau gwasanaeth i gyflenwyr. Rhaid nodi'r fethodoleg gymeradwy fel y'i defnyddir gan y darparwr gwasanaeth yn glir i ddefnyddwyr ar y wefan.

2. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth, o leiaf, roi manylion cyswllt yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, yn ogystal â hysbysu defnyddwyr o argaeledd cynlluniau grant megis

'Warm Front', yr 'Energy Assistance Package' (yr Alban), y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) a'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon.

## Gofyniad saith – Cywirdeb a diweddaru tariffau

(A) Rhaid i brisiau a chymariaethau rhwng prisiau fod yn gywir a nodi pryd y cawsant eu diweddaru ddiwethaf.

(B) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth nodi'r dyddiad y cafodd ei wefan a'i gronfa ddata eu diweddaru.

### 7.1 Tybiaethau cyfrifo

7.1.1 Ni ddylai'r ffactorau y mae darparwr gwasanaethau yn eu defnyddio'n sail i'w gyfrifiadau gynnwys y canlynol:

- cynigion ymrwymo cychwynnol, gostyngiadau/cynigion arbennig untro neu ostyngiadau hyrwyddol eraill sy'n para am lai na hyd y tariff;
- gostyngiadau sy'n dibynnu ar y defnyddiwr yn ymddwyn mewn ffordd benodol h.y. y gostyngiadau hynny nas telir yn awtomatig;
- gostyngiadau sy'n gymwys i wasanaethau eraill (e.e. teleffoni) y gall cyflenwr eu hychwanegu at gynnyrch sy'n cael ei gynnig;
- cynigion nad ydynt yn ymwneud â phris;
- gostyngiadau a all gael eu cynnig gan y darparwr gwasanaethau ar gyfer cymwysiadau newydd;
- am gyfnod cymharu o 12 mis: unrhyw ostyngiad a delir ar ôl y 12 mis cyntaf o ddyddiad dechrau cyflenwi cwsmer neu ar ôl unrhyw gyfnod dilynol o 12 mis.

7.1.2 Ar ôl ystyried 7.1.1, dylai'r ffactorau y mae darparwr gwasanaeth yn eu defnyddio'n sail i'w gyfrifiadau gynnwys y canlynol:

- gostyngiadau mynych a delir yn awtomatig: am ddefnyddio dull talu penodol (e.e. Debyd Uniongyrchol misol); gostyngiadau tanwydd deuol; gostyngiad ar-lein; gostyngiadau ar gyfer biliau di-bapur gorfodol; taliadau sefydlog (e.e. ffi aelodaeth fisol sefydlog).

7.1.3 Gall Ofgem adolygu unrhyw fath newydd o ostyngiad a rhoi cyfarwyddyd ffurfiol i ddarparwyr gwasanaeth ar sut y dylid trin y fath ostyngiadau o ran cydymffurfio â'r Cod Hyder. Bydd y cyfarwyddyd ffurfiol yn cael effaith fel pe bai'n rhan o'r canllawiau hyn.

### 7.2 Diweddaru tariffau

7.2.1 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth wneud pob ymdrech resymol i wneud y canlynol:

- diweddaru tariffau;
- ychwanegu tariffau ar gyfer cyflenwr newydd;
- cywiro unrhyw wallau neu ddatrys unrhyw broblemau a nodwyd gan Ofgem;
- ychwanegu gwybodaeth am dariffau newydd mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Cod Hyder.

7.2.2 Cyn gynted â phosibl, ond cyn pen dau ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y darparodd y cyflenwr ynni perthnasol (neu Ofgem) fanylion y tariff a chadarnhad o'r dyddiad y byddai'n dod i rym, neu'r dyddiad y darparwyd y tariff i ddefnyddwyr, p'un bynnag yw'r diweddaraf.

7.2.3 Ni ddylid cynnwys ar wefan darparwr gwasanaeth dariff newydd sydd ag amser arwain o fwy na chwe wythnos i'r dyddiad y'i darparwyd i ddefnyddwyr.

### 7.3 Arddangos manylion tariff a gwariant cyfredol

7.3.1 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth arddangos manylion tariff presennol defnyddiwr, yn seiliedig ar y wybodaeth a gofnodwyd gan y defnyddiwr, y gellir eu gweld o fewn ei brif dudalen ganlyniadau neu y gellir cael mynediad atynt o'r dudalen honno. Dylai'r manylion hyn gynnwys y canlynol:

- enw'r cyflenwr presennol;
- enw'r tariff presennol;
- cyfraddau uned a throthwyon defnydd;
- y dull presennol o dalu;
- pob gostyngiad a gynhwysir yn y cyfrifiad o dariff presennol y defnyddiwr;
- y gwariant cyfredol amcangyfrifedig (£) y flwyddyn;
- y defnydd presennol amcangyfrifedig mewn kWh ar gyfer nwy a / neu drydan y flwyddyn.

**Nodiadau canllaw gofyniad saith**

1. Gall darparwyr gwasanaeth amcangyfrif y gwariant presennol os na all defnyddwyr roi gwybodaeth benodol.  Er enghraifft, gellid amcangyfrif faint o nwy a /neu drydan a ddefnyddiwyd drwy ofyn cwestiynau megis beth yw maint yr eiddo, y nifer o ystafelloedd gwely ac ati.  Yn yr achosion hyn dylai fod yn glir bod y wybodaeth uchod wedi'i hamcangyfrif / tybio.

2. At ddibenion 7.2.3 pan fo'r tariff yn newydd oherwydd newidiadau ym mhris tariff presennol, ystyrir mai'r dyddiad y mae ‘ar gael i ddefnyddwyr’ yw'r dyddiad y daw'r newid mewn prisiau yn weithredol.

3. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth hysbysu Ofgem ar unwaith am unrhyw amgylchiadau annisgwyl sy'n ei atal rhag cydymffurfio â gofyniad 7.2. Bydd Ofgem yn ystyried pob achos yn unigol ac yn penderfynu a yw'r darparwr gwasanaeth wedi gwneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â'r gofyniad neu a yw wedi torri'r Cod Hyder.

4. Gall Ofgem adolygu unrhyw fath newydd o dariff a rhoi cyfarwyddyd ffurfiol i ddarparwyr gwasanaeth ar sut y dylid trin y fath dariff o ran cydymffurfio â'r Cod Hyder.  Bydd y cyfarwyddyd ffurfiol yn cael effaith fel pe bai'n rhan o'r canllawiau hyn.

5. Mae gofyniad 7.1.1 yn cael blaenoriaeth dros ofyniad 7.1.2. Er enghraifft, ar gyfer cyfnod cymharu o 12 mis, **ni** châi gostyngiad

awtomatig am ddebyd uniongyrchol misol a delir ar ôl y 12 mis cyntaf o ddyddiad dechrau cyflenwi cwsmer ei gynnwys yn y cyfrifiad.

*Arfer gorau a argymhellir:*

- Dylai darparwyr gwasanaeth roi gwybod i gwsmeriaid a ydynt yn debygol o orfod talu ffi derfynu os byddant yn trosglwyddo i gynnyrch newydd.
- Dylai darparwyr gwasanaeth bwysleisio i ddefnyddwyr pa mor bwysig yw cofnodi gwybodaeth gywir er mwyn sicrhau'r gymhariaeth orau a dylent annog defnyddwyr i fewnbynnu eu ffigurau defnydd blynyddol er mwyn gwneud hyn.

### Gofyniad wyth – Archwiliad blynyddol

(A) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gydymffurfio ag archwiliad blynyddol a gyflawnir gan archwilydd sy'n annibynnol ar y darparwr, gan weithio yn unol â Chylch Gorchwyl a ddarparwyd gan Ofgem. Caiff cost pob archwiliad ei thalu gan y darparwr gwasanaeth, oni nodir yn wahanol gan Ofgem cyn dechrau'r archwiliad.

(B) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gydymffurfio ag archwiliadau chwarterol ac ad-hoc a gyflawnir yn fewnol gan Ofgem.

**Nodiadau canllaw gofyniad wyth**

1. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu mynediad i'w systemau ar gyfer yr archwilydd a rhoi pob cymorth arall iddo y gall yn rhesymol ofyn amdano.

### Gofyniad naw – Ymdrin â chwynion

(A) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sefydlu a gweithredu gweithdrefn effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion ac ymholiadau gan ddefnyddwyr ac ymateb i unrhyw gŵyn neu ymholiad cyn pen saith diwrnod gwaith o'u derbyn.

**Nodiadau canllaw gofyniad naw**

1. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth roi i Ofgem enw cyswllt a rhif ar gyfer atgyfeirio cwynion a gafwyd mewn perthynas â'r darparwr gwasanaeth.
2. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth gydnabod cwyn a atgyfeiriwyd gan Ofgem cyn pen dau ddiwrnod gwaith a rhaid i'r darparwr gwasanaeth wneud pob ymdrech resymol i ddatrys y gŵyn hon cyn pen saith diwrnod gwaith. Dylid anfon copi o unrhyw ymateb i'r defnyddiwr i Ofgem.

# Atodiadau

**Mynegai**



| Atodiad | Enw'r Atodiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1 | Y Broses Newid | 14 |

# Atodiad 1 – Y broses newid

Bydd unrhyw newidiadau i'r Cod yn y dyfodol yn cynnwys y broses ganlynol:

- Bydd Ofgem yn nodi materion gydag argymhellion;
- Bydd yn anfon yr argymhellion at ddarparwyr gwasanaeth er mwyn ceisio eu barn;
- Bydd yn gofyn am sylwadau gan gyflenwyr os bydd eu hangen (yn dibynnu ar y mater);
- Dychwelir yr ymateb i Ofgem yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni;
- Bydd Ofgem yn gwneud penderfyniad terfynol ac yn hysbysu pob parti â diddordeb.